# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar Ragfyr 3ydd, 2024 yn Neuadd Bentref Coedybryn.

**Yn bresennol** Cyng. Sian Williams ( Cadeirydd ) Cyng. Emyr Jones

Cyng. Sharon Thomas Cyng. Ceri Jones

Cyng. Maldwyn Lewis Cyng. Mark Davies

Cyng. Teifi Evans Cyng. Llyr Evans

Cyng. Rob Jones

**Clerc** Rhian Jones

**1 . Ymddiheuriadau**

- Cyng Carol Davies a'r Cyng. Osian Davies

.

**2. Datgan Diddordeb –**

**3. Cofnodion y Cyfarfod diwethaf**

**3.1 –** Pwynt 7.2 – nid ydym wedi cael cyfle i gwrdd eto i lenwi'r ffurflen.

**3.2 -** . Derbyniodd pawb gopi o gofnodion mis Tachwedd a cytunodd y Cyng. Teifi Evans eu bod yn gywir, ac eiliwyd gan y Cyng.Ceri Jones

.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**4.1 -** Mae'r Cyng.Sharon Thomas yn dal i ddisgwyl clywed am y De-fib yng Nghroeslan.

**4.2** –Mae'r Cyng.Sian Williams wedi clywed wrth Rhiannon yn Boomerang – gobeithio cwrdd yn y flwyddyn newydd i drafod yr arwydd T Llew Jones.

**4.3** – Llwybrau Cerdded – maent thy wlyb ar hyn o bryd i wneud dim amdanynt. Mae angen cael rhywun i dorri'r clawdd a'r llwybr sydd yn mynd heibio Clos Glas. Angen edrych ar 'Public Liability' – contract o'r Sir 'Footpath Framework'. Gwerth holi am 3 pris mor gynted a phosibl wrth Lyn Teifi Trees, Pengallt a Camddwr i glirio'r llwybr i 'standard bridle path'.

**4.4** – Mae'r broblem dddwr yn parhau yn Brongest – angen clirio'r stone traps. Mae llawer o ddwr yn casglu ar y ffordd o'r hen ysgol i lawr at y bont ac hefyd o Fferm Troedyraur i lawr at y gyffordd.

**4.5 –** Mae'r coed Nadolig wedi eu gosod yn eu lle ac yn edrych yn hyfryd ym mhob pentref. Diolchwyd i Mike a Teifi Thomas am ddod a'r coed i'r pentrefi ac i bawb arall ddaeth i osod nhw yn eu lle. Diolchwyd hefyd i bawb ymunodd yn y canu carolau ar brynhawn dydd Sul ac am y lluniaeth hyfryd yn Neuadd Coedybryn i ddiweddu'r noson.

**5. Cyrsiau**

**5.1** –Mae rhestr cyrsiau newydd wedi dod allan ac angen pawb i edrych arnynt er mwyn cael archebu lle yn y flwyddyn newydd.

**5.2** – Mae Hyfforddiant i Gynghorwyr ar gael gyda lle i ddau am ddim ar rai modiwlau.

* Angen archebu lle i'r Cynghorwyr Sian Williams a Mark Davies ar Modiwl 21 a 24.

**6. Materion y Cynghorydd Sir**

**6.1** –Diolch i'r Cynghorwyr a ddaeth at ei gilydd i osod y coed Nadolig yn eu lle dros y penwythnos.

Cerdigion oedd y Sir a ennillodd yr Eisteddfod.

**6.2** – Bydd parcio am ddim ym meysydd parcio Ceredigion ar y tri dydd sadwrn sy'n arwain at y Nadolig.

**6.3** – Bu cyfafrod heddiw i drafod dyfodol rhai ysgolion bach yng Ngheredigion.

**6.4** – Ar nos Wener y 6ed maeperfformiad gan 'Small World Theatre' yn Aberteifi.

**6.5** -Siomedig iawn o CLIC gyda'r diffyg ymateb i'r broblem ddŵr sy'n casglu yn ein pentrefi. Gwelwyd y difrod yn Rhydlewis dros y penwythnos gyda'r tywydd garw ac unman gan y dŵr a'r mwd i fynd oherwydd fod y draeniau'n llawn.

**6.6** - Mae'r gwaith yn parhau ar arfordir Aberaeron a diddordol fu gweld manylion y prosiect hwn. Mae'r gwaith hwn i fod i achub y dref am y 150 mlynedd nesaf, mae'n brosiect hynod o bwysig, ond mae'r gwaith yn rhedeg ychydig yn hwyrach na'r disgwyl.

**6.7** – Cafwyd ymateb positif iawn i'r Canu Carolau dros y penwythnos. Gwelwyd naws hyfryd ym mhob pentref ac mae sawl neges o Ddiolch wedi cyrraedd. Hyfyd hefyd oedd gweld y Cyng.Llŷr Evans yn dosbarthu losin i'r plant o sach Sion Corn.

**7. Gohebiaeth**

**7.1** –Mannau Croeso Cynnes – mae grant ar gael i pob pentref. ( Mae Coedybryn eisioes wedi ei dderbyn a helpodd i dalu am y goleuadau sydd ar y goeden eleni ). Mae ar gael i gymunedau eraill os dymunant geisio amdano.

**7.2** - Ymgynghoriad Ceredigion – llefydd parcio oddiar y stryd. Mae meysydd parcio yn gwneud tipyn o arian.

**7.3** – Mae problem gyda cludiant Tacsi's lleol oherwydd bod diffyg ceir gan y cwmniau.

**7.4** – Heddwch ar Waith – oes diddordeb gan unrhywun fod yn Llysgenad Heddwch.

**7.5** – Trafnidaieth yng Ngheredigion – am 10 o'r gloch y bore ar y 10fed o Ragfyr mae CAVO yn cynnal digwyddiad gymunedol yn Aberaeron.

**7.6** – Strategaethau Cymunedol 2024-2027 ar Ddiogelu Ceredigion.

**7.7**- Mae'r Urdd yn cynnig gwyliau am ddim i 1,000 o blant trwy 'Cronfa Cyfle i Bawb'.

**8. Cynllunio**

**8.1 –** Blaenbachcrydd – adeiladu tŷ fferm newydd ond angen tynnu'r hen un i lawr oherwydd nad yw'n ddiogel.

Nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad ond iddynt ddilyn y canllawiau cynllunio. Braf gweld teulu ifanc yn dod a'r fferm yn ôl i ddefnydd. Cefnogwyd y cais gan yr holl Gynghorwyr a bydd yn tŷ newydd yn arben ynni.

**9. Praesept**

**9.1** -Penderfynwyd gostwng ein cais am 2025/26 i £10,000, cynigiodd y Cyng Sharon Thomas ac eiliwyd gan y Cyng.Llŷr Evans.

**9.2** – Mae angen cysylltu gyda'e Prif Weithredwr am y broblem ddŵr yn yr ardal gan nad ydym yn cael unrhyw ymateb wrth Clic.

**10. Cyllid**

**10.1 –** Mae angen cysylltu gyda Ashmole & Co i nodi y newid i gyflog y Clerc. Mae angen iddynt addasu'r cyflog i £13.69 yr awr o Ebrill 2024.

**10.2** - Cytunodd pawb i dalu'r sieciau ac arwyddywd hwy gan y Cynghorwyr Emyr Jones a Rob Jones.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyflog y Clerc –** | **£258.18** | **001789** |
| **HMRC –** | **£64.40** | **001788** |
| **The Solar Centre -** | **£191.95** | **001790** |
| **Peirianwaith GM Engineering -** | **£72.00** | **001787** |

**10.3 –** Gofynwyd i'r Cyng.Sharon Thomas i anfon anfoneb cyn ein cyarfod nesaf am y Coed Nadolig a archebyd gennym am £75 yr un.

**11. Blwch Halen**

**11.1** – Mae'r blychau halen sydd ym Mhenrhiwpala Salem yn llawn ar hyn o bryd.

**11.2** – Nid oes blwch halen ar rhiw Blaenwern – ond mae'r ffordd hon fel arfer yn cael ei graenu gan y Cyngor gan mae hon yw'r ffordd maent yn ddefnyddio i gyrraedd y briffordd.

**11.3** – Penderfynwyd archebu 12 blwch halen newydd i'w gosod o amgylch yr ardal. Byddant yn cael eu gosog ger Aelybryn / islaw Eglwys Troedyraur / gwaelod rhiw Troedyraur / Pen uchaf rhiw Troedyraur / Penrhiwpal o gyfeiriad Coedybryn / Twrgwyn / gwaelod rhiw Blaenwern / ger Brynhywel / ar y ffordd o Croeslan i Penrhiwllan / rhiw Pengallt, pen uchaf rhiw Blaenwern / Maesllyn. Bydd angen sicrhau fod y blychau yn cael eu llenwi gyda halen hefyd. ( Cynigiodd y Cyng Ceri Jones ein bod ni fel Cyngor yn archebu 12 blwch a'u llenwi ac eiliwyd gan y Cyng. Teifi Evans).

**12. Materion ardal**

**12.1** – Croeslan – Mae'r clawdd yn parhau wedi gor-dyfu dros y palmant a phan yn dod o gyfeiriad Llandysul annodd yw gweld yr arwyddion – cyflymder ac enw'r pentrf.

**12.2** –Cynhelir Noson 60au/70au yng Nghastell Newydd Emlyn nos yfory ac mae taith tractorau y Llewod bach yn mynd drwy'r dref ac yn diweddu yn y clwb Rygbi.

**12.3** – Rhydlewis – rhiw Pengâr angen sortio'r draeniau allan ac mae 'pothole' ar ganol y sgwar sydd angen cael ei lenwi.

**12.4** – Brongest – mae mainc gyda styllen wedi torri a'r un peth hefyd yn Maesllyn yn Gardd y Mileniwm. Daeth cwyn am y fainc hon yn Brongest -hwn i'w drafod yng nghyfarfod Ionawr.

**12.5** – Ffostrasol – Dydd Sul diwethaf cafwyd llifogydd oherwydd y dŵr a ddaeth i lawr o gyfeiriad Plwmp. Cariwyd llawer o gerrig mân a dail a mwd i lawr gan y dŵr ac nid oedd ganddo unman i fynd gan fod y draeniau wedi eu blocio.

**12.6** – Mae BT wedi bod yn gosod postyn newydd ym mhentref Ffostrasol, oherwydd y goleuadau traffic achoswyd cryn broblem i loriau mawr.

**12.7** – Mae diffyg yn y cyflenwad dŵr wedi bod mewn sael pentref yn ddiweddar.

**12.8** – Clwb Cinio Coedybryn -Dydd Iau, Rhagfyr 5ed mae tua 70 wedi cinio Nadolig yn y Neuadd.

**12.9** -Cyn ein cyfarfod nesaf, bydd angen in bawb dynnu'r goleuadau oddi ar coed Nadolig eu pentrefi eu hunain ac hefyd tynnu'r coed i lawr.

**14. Cyfarfod Nesaf**

**14.1 –** Bydd ein cyfarfod nesaf yn Neuadd Rhydlewis ar Ionawr 7fed am 7:30yh.

**14.2** – Gan nad oedd dim ymhellach i'w drafod, tynnodd y Gadeiryddes y cyfarfod i ben am 10:15yh

Cytunwyd fod y cofnodion yma'n gywir.

-----------------------------------------------------  -----------------------------------------------

Arwyddwyd ( y Cadeirydd )　　　　　　　　　　Dyddiad